

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Protocol Gweithredol rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Datblygu rhaglenni gwaith cydgysylltiedig
a rhannu gwybodaeth i gefnogi
gwelliannau yn y GIG



Fersiwn	3.0
Dyddiad y cytunwyd arno	Medi 2016

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb o rolau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru	4
Diben y Protocol Gweithredol	5
Amcanion penodol	5
Fframwaith rheoli	9
Adolygu'r protocol	9
Atodiadau	
Atodiad 1 – Cyfrifoldebau archwilio ac arolygu, adolygu a rheoleiddio	10

Hanes Adolygiadau a Chymeradwyaeth

Fersiwn	Dyddiad y cytunwyd arno	Cytunwyd gan
1.0	Hydref 2012	Peter Higson, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru
2.0	Mawrth 2015	Kate Chamberlain, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru
3.0	Medi 2016	Kate Chamberlain, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhagair

Mae gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru hanes da o gydweithio'n agos. Fel sefydliadau sydd wedi llofnodi'r **Concordat Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Cydweithio er mwyn Cefnogi Gwelliannau: Cytundeb Strategol**, rydym wedi dangos ymrwymiad i fabwysiadu arferion sy'n cefnogi cydweithio a chydweithredu effeithiol a rhannu gwybodaeth.

Mae'r Protocol Gweithredol hwn yn nodi ein hamcanion cyffredin mewn nifer o feysydd allweddol, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i helpu i'w cyflawni. Mae'r Protocol, a lansiwyd gyntaf ym mis Hydref 2012, wedi darparu fframwaith clir ar gyfer yr amrywiaeth o waith a wneir gan staff y ddau sefydliad fel mater o drefn drwy gydweithio a chydweithredu.

Rydym wedi adolygu'r Protocol yn ddiweddar er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol a'i fod yn ystyried datblygiadau newydd, yn fwyaf nodedig y trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd a gyflwynwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Credwn, gyda'r diweddariadau sydd wedi'u cynnwys, fod y Protocol Gweithredol yn parhau i ddarparu fframwaith defnyddiol ar gyfer sicrhau bod gweithgareddau ein sefydliadau yn ategu ei gilydd ac yn ein helpu i gyflawni ein nod cyffredin o gefnogi gwelliannau yn y GIG yng Nghymru.

Kate Chamberlain, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Crynodeb o rolau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

- 1 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol y GIG yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff llywodraeth leol, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.
- 2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi gwaith yr Archwilydd Cyffredinol drwy ddarparu staff ac adnoddau eraill i gynnal ei raglen flynyddol o waith archwilio sy'n werth tua £20 biliwn o arian trethdalwyr. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys yr archwiliad ariannol blynyddol o gyfrifon cyrff cyhoeddus a gwaith archwilio perfformiad sy'n ystyried pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio adnoddau. Yn y GIG, bydd yr olaf yn cynnwys archwilio cadernid trefniadau llywodraethu corfforaethol cyrff y GIG yn flynyddol a chynnal adolygiadau gwerth am arian thematig o feysydd penodol lle y darperir gwasanaethau.
- 3 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am arolygu a rheoleiddio'r holl ddarpariaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cyflawni rhai swyddogaethau, sy'n cynnwys y gallu i ystyried:
 - a argaeledd gofal iechyd a mynediad iddo;
 - b ansawdd ac effeithiolrwydd gofal iechyd;
 - c rheolaeth ariannol gofal iechyd a threfniadau eraill ar gyfer ei reoli ac a yw'n cael ei ddarparu mewn modd darbodus ac effeithlon;
 - ch argaeledd ac ansawdd gwybodaeth a roddir i'r cyhoedd; a
 - d yr angen i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.
- 4 Rôl graidd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da. Hefyd, mae gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gyfrifoldeb penodol am sicrhau y diogelir buddiannau unigolion y cyfyngir ar eu hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn briodol. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd yn cyflawni rôl yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd yng Nghymru. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru¹.
- 5 Er bod gwahaniaethau clir rhwng y gwaith a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'r GIG a'r gwaith a wneir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mewn perthynas ag ef, ceir rhai meysydd lle mae gan y ddau sefydliad rôl (**Atodiad 1**). Felly, mae'n ddymunol iawn bod y ddau sefydliad yn cydweithio i ddatblygu rhaglenni gwaith cydgysylltiedig sy'n gymesur ac sy'n cyfleu negeseuon

¹ Yn y cyd-destun hwn, swyddogaethau o dan Bennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

cyson i gyrff y GIG. Fodd bynnag, caiff annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol ei diogelu gan statud, ac ni ddylid dehongli unrhyw beth yn y protocol hwn yn y fath fodd fel bod disgrisiwn yr Archwilydd Cyffredinol i arfer swyddogaethau yn cael ei rwystro.

Diben y Protocol Gweithredol

- 6 Mae'r Protocol Gweithredol hwn yn nodi sut y bydd yr Archwilydd Cyffredinol (sy'n cynnwys staff Swyddfa Archwilio Cymru a chontractwyr sy'n gweithio i'r Archwilydd Cyffredinol) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cydweithio er mwyn gweithredu'r egwyddorion a nodir yn **Cydweithio er mwyn Cefnogi Gwelliannau: Cytundeb Strategol rhwng yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru**².
- 7 Mae'r protocol hwn yn disgrifio'n benodol y trefniadau gweithredol sy'n cefnogi prosesau cydgysylltu, cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Bwriedir iddo helpu'r sefydliadau i lunio rhaglenni gwaith sy'n ategu ei gilydd ac yn osgoi dyblygu gwaith a sicrhau bod prosesau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth a chroesgyfeirio risgiau a phryderon.
- 8 Mae'r protocol hefyd yn cefnogi'r cydweithio sydd ei angen rhwng yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mewn perthynas â'r Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd yn y GIG yng Nghymru³.

Amcanion penodol

- 9 Mae'r adrannau canlynol yn ystyried meysydd penodol lle mae'r Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn bwriadu cydweithio'n weithredol. Ar gyfer pob adran, nodir amcanion allweddol a chamau gweithredu penodol i helpu i gyflawni'r amcanion hynny.
 - a Rhaglenni gwaith
Ein hamcanion yw:
 - sicrhau bod ein rhaglenni gwaith unigol yn cael eu llywio gan ddarlun cyffredin o'r prif risgiau a phroblemau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru;
 - manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio'n effeithiol a sicrhau na chaiff cynnwys rhaglenni gwaith y ddau sefydliad ei ddyblygu'n ddiangen;
 - trefnu ein rhaglenni gwaith unigol er mwyn osgoi achosion di-fudd o wrthdaro rhwng gweithgarwch ac adeiladu ar allbynnau gwaith ein gilydd;
 - lle y bo'n briodol, llunio dulliau o gyflawni ein gwaith sy'n ategu ei gilydd ac yn ein galluogi i ddibynnu ar ganfyddiadau ein gilydd;
 - nodi cyfleoedd i gydweithio a/neu gydweithredu yn gynnar a'u hymgorffori yn ein rhaglenni gwaith unigol;

² Llofnododd y pedwar prif gorff arolygu, archwilio a rheoleiddio *Gytundeb Strategol* ym mis Mawrth 2011, fel rhan o fframwaith o weithgareddau cydweithio y bwriadwyd iddynt helpu i gydgyssylltu gweithgarwch adolygu allanol yn well a datblygu trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth ymhellach. Roedd y rhain yn cynnwys 'Swyddfa Archwilio Cymru' ar y pryd, sef yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff.

³ Mae'r Archwilydd Cyffredinol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru wedi nodi [trefniadau sy'n disgrifio sut y byddant yn cydweithio er mwyn rhannu gwybodaeth ac ymateb pan fydd pryderon yn codi yng nghyrrff y GIG yng Nghymru](#).

- meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o raglen waith ein gilydd; a
- rhoi sicrwydd cyhoeddus cynhwysfawr, cydgysylltiedig a chosteffeithiol ynghylch gwasanaethau'r GIG yng Nghymru i ddinasyddion Cymru.

Er mwyn cyflawni'r amcanion uchod, bydd yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gwneud y canlynol:

- **defnyddio trafodaethau o Uwchgynadleddau Gofal Iechyd⁴ a chyfarfodydd Dwysáu/Ymyrryd er mwyn llywio cynnwys eu gwaith yng nghyrrff unigol y GIG ac ar lefel Cymru gyfan;**
- **rhannu cynnwys ei darpar raglen waith â'r sefydliad arall i'w drafod/ ar gyfer sylwadau cyn penderfynu'n derfynol arno a'i gadarnhau a bydd yn cyfleu ac yn trafod unrhyw newidiadau a wneir ar ôl hynny yn ystod y flwyddyn;**
- **cynnal cyfarfodydd rheoli dwyochrog rheolaidd i nodi lle mae'n briodol cydweithio/cydweithredu;**
- **sefydlu rhwydwaith o gyfarfodydd rheolaidd rhwng Rheolwyr Cydberthnasau ac Arweinwyr Archwilio Perfformiad i gefnogi gwaith meithrin ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth da mewn perthynas â rhaglenni gwaith â ffocws lleol;**
- **rhannu dogfennau sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am gwmpas a ffocws eu hadolygiadau unigol fel mater o drefn;**
- **adolygu a, lle y bo angen, ddiwygio eu cynlluniau gwaith yn sgil gwaith sy'n cael ei gynllunio/gwneud gan y corff arall; a**
- **chytuno ar broses o rannu gwybodaeth a rhoi gwybod am ganfyddiadau mewn meysydd lle ceir rhai cyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd e.e. asesu cryfder trefniadau llywodraethu yng nghyrrff y GIG.**

b Cydweithio/cydweithredu ar adolygiadau penodol

Ein hamcanion yw:

- defnyddio'r arbenigedd a'r wybodaeth a ddelir mewn un sefydliad i lywio cwmpas darnau unigol o waith yn y sefydliad arall a'r modd y'u cyflawnir;
- rhoi adborth cyson i gyrrff y GIG mewn meysydd lle ceir cyfrifoldebau ar y cyd; a
- nodi'n glir y trefniadau sy'n ymwneud â goruchwyllo a chyflawni lle y cytunwyd ar ddarn o waith ar y cyd, a sicrhau eu bod yn cael eu deall.

Er mwyn cyflawni'r amcanion uchod, bydd yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gwneud y canlynol:

- **gwahodd ei gilydd i eistedd ar grwpiau llywio/paneli cyfeirio allanol sy'n llywio ein hadolygiadau unigol;**
- **rhannu canfyddiadau perthnasol gwaith blaenorol er mwyn llywio cwmpas unrhyw drefniadau cydweithio/cydweithredu;**

4 Mae AGIC yn hwyluso rhaglen o Uwchgynadleddau Gofal Iechyd blynyddol sy'n cynnwys cyrrff adolygu iechyd a gofal cymdeithasol ac asiantaethau gwella sy'n gweithio ledled Cymru. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle i rannu gwybodaeth a safbwyntiau am sut mae cyrrff y GIG yn perfformio a'r heriau a'r risgiau allweddol sy'n eu hwynebu.

- chytuno, mewn perthynas â gwaith ar y cyd, pa sefydliad a fydd yn chwarae'r rôl 'arweiniol' a, phan nad ystyrir bod rôl arweiniol yn briodol, nodi'n glir drefniadau ar gyfer y canlynol:
 - goruchwyllo a rheoli'r adolygiad ar y cyd yn gyffredinol (e.e. drwy grŵp llywio neu gorff tebyg);
 - rolau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chynnal yr adolygiad;
 - sicrhau ansawdd a chymeradwyo allbynnau;
 - llunio a bathodynno unrhyw allbynnau ar y cyd;
 - cyhoeddiadau a datganiadau i'r wasg (os yw'n briodol); a
 - gosod adroddiadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

c Rhannu canfyddiadau

Ein hamcanion yw:

- sicrhau bod gan bob sefydliad ymwybyddiaeth gref a dealltwriaeth glir o allbynnau gwaith ei gilydd a'i ddylanwad a'i effaith ar raglenni gwaith unigol;
- rhannu gwybodaeth yn amserol ac mewn modd sy'n parchu'r angen i sicrhau cyfrinachedd lle y bo'n briodol;
- defnyddio allbynnau ein gwaith unigol i lywio asesiadau ein gilydd o wasanaethau penodol y GIG neu sefydliadau unigol y GIG; a
- defnyddio canfyddiadau ein gilydd i sicrhau ein bod yn hysbysu dinasyddion Cymru am eu gwasanaethau iechyd gyda'n gilydd.

Er mwyn cyflawni'r amcanion uchod, bydd yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gwneud y canlynol:

- rhoi trefniadau/protocolau rhannu gwybodaeth ar waith mewn perthynas â rhaglenni gwaith penodol neu barhaus;
- lle mae gennym ddiddordeb cyffredin, trafod canfyddiadau sy'n dod i law o'n gwaith parhaus mewn cyfarfodydd dwyochrog, rheolaidd;
- rhannu drafftiau amlinellol cynnar a drafftiau terfynol pan fo adroddiadau unigol yn ystyried gwaith ei gilydd, neu'n cyfeirio ato'n benodol, neu os bydd canfyddiadau adroddiadau yn llywio gweithgarwch cyfredol neu barhaus;
- sicrhau bod adroddiadau terfynol ar gael cyn iddynt gael eu cyhoeddi o dan drefniadau 'embargo' y cytunwyd arnynt;
- sicrhau y gall staff o'r ddau sefydliad gael gafael ar wybodaeth neu dystiolaeth a gesglir mewn ymateb i faes o ddiddordeb penodol neu a geir yn rheolaidd gan sefydliadau'r GIG fel rhan o'r drefn e.e. ffurflenni hunanasesu Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd; a
- chyfeirio'n benodol at waith ei gilydd ac adroddiadau a gyhoeddwyd o fewn prosesau cyfathrebu rheolaidd y naill sefydliad a'r llall e.e. cylchlythyrau ac ar ein gwefannau unigol.

ch Rhannu/croesgyfeirio pryderon a risgiau penodol

Ein hamcanion yw:

- llywio ein darlun cyffredin o'r prif risgiau a phryderon sy'n wynebu GIG Cymru, gwasanaethau gofal iechyd unigol neu sefydliadau unigol y GIG drwy rannu pryderon a risgiau penodol yn briodol ac yn amserol;
- ymateb yn gyfrifol ac yn gymesur i bryderon a risgiau penodol drwy gamau gweithredu cydgysylltiedig, lle y bo'n briodol;
- gwneud y defnydd gorau o wybodaeth 'feddal' a thystiolaeth 'gadarn' i lywio ein hasesiad cyffredinol o wasanaethau iechyd a gynlluniwyd ac a ddarparwyd gan GIG Cymru; a
- meithrin ein gallu i roi sicrwydd cyhoeddus cadarn ac effeithiol a llywio gwelliant drwy rannu ac atgyfeirio pryderon a risgiau yn amserol.

Er mwyn cyflawni'r amcanion uchod, bydd yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gwneud y canlynol:

- **Ile mae gennym ddiddordeb cyffredin, rhannu risgiau penodol neu feysydd pryder penodol sy'n deillio o'n gwaith adolygu cyn gynted â phosibl;**
- **atgyfeirio pryderon neu risgiau y'n hysbyswyd amdanynt, ond pan nad oes gennym unrhyw gyfrifoldeb/awdurdod i weithredu yn eu cylch, at y sefydliad arall fel y gall ystyried pa gamau, os o gwbl, y mae angen iddo eu cymryd; a**
- **chyfranogi'n llawn yn y trafodaethau bord gron fel rhan o drefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru er mwyn ystyried pryderon neu risgiau a nodwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru, a phennu a chytuno ar gamau priodol ar gyfer ymateb i'r pryderon a nodwyd.**

Fframwaith rheoli

- 10 Caiff fframwaith ar gyfer cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ei ymgorffori ym mhrosesau'r ddau sefydliad:

Ar lefel strategol:

- a bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phrif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod meysydd o ddiddordeb cyffredin;
- b bydd cynrychiolwyr o uwch dîm arwain pob sefydliad yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu cynlluniau, trafod cynnydd o ran rhaglenni gwaith presennol a rhannu'r hyn a ddysgwyd o ran arfer arolygu, archwilio a rheoleiddio proffesiynol; a
- c bydd pob sefydliad yn nodi un pwynt cyswllt o'r uwch dîm arwain i gydgyssylltu camau gweithredu a phrosesau rhannu gwybodaeth rhwng cyfarfodydd.


Ar lefel weithredol:

- a bydd 'rheolwyr cydberthnasau' enwebedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac arweinwyr archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfarfod yn chwarterol o leiaf i drafod cynnwys ac amseriad cynlluniau gwaith ac allbynnau o'u gwaith unigol o fewn ardaloedd bwrdd iechyd/yddiriedolaeth a enwebwyd; a
- b bydd arweinwyr prosiect a enwebwyd ar gyfer rhaglenni adolygu penodol neu adolygiadau Cymru gyfan yn cyfarfod yn rheolaidd fel y bo'n briodol i drafod cynlluniau adolygu, dulliau gweithredu ac allbynnau.

Adolygu'r protocol

- 11 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn adolygu'r Protocol Gweithredol yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn darparu system effeithiol i gefnogi prosesau cydgysylltu, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth da rhwng y ddau sefydliad. Caiff y gwaith o adolygu'r protocol ei lywio drwy gasglu gwybodaeth yn rheolaidd i nodi i ba raddau y mae'r ddau sefydliad yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth a'r manteision sy'n deillio o hynny. Bydd hyn yn cynnwys casglu adborth gan staff yn y ddau sefydliad a chynrychiolwyr cyrff y GIG er mwyn asesu eu canfyddiadau o b'un a yw gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi'i gydgyssylltu'n ddigonol.

Atodiad 1: Cyfrifoldebau archwilio ac arolygu, adolygu a rheoleiddio



Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8163

Ffacs: 0300 062 8367

E-bost: hiw@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan: www.hiw.org.uk